



Nodyn ar gyfer cyflenwyr S4C

Archif y BBC yng Nghymru

O fewn y Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C mae'r BBC wedi cytuno telerau ar gyfer defnyddio adnoddau archif BBC Cymru Wales.

Dyma fanylion y trefniant newydd :

1. Yr Hawl

- 1.1 Yr hawl i gynhyrchwyr annibynnol i gael mynediad a defnyddio clipiau o archif BBC Cymru yn rhydd o unrhyw daliadau trwydded ar gyfer rhaglenni a chynnwys arall a gomisiynir gan S4C ar gyfer darlledu ar Wasanaethau S4C.
- 1.2 Mae hyn yn amodol ar dalu ffi ymchwil arferol y BBC a chostau trosglwyddo technegol ynghyd ag unrhyw gliriadau hawliau sylfaenol sydd angen cyn defnyddio'r deunydd gan gynnwys (ond nid yn unig) actorion, ysgrifenywyr sgriptiau a cherddorion.
- 1.3 Gwneir pob ymdrech i gyflenwi clipiau o fewn 3 diwrnod gwaith.
- 1.4 Bydd angen rhoi cydnabyddiaeth i "BBC Cymru Wales" am ddefnyddio'r clipiau.

2. Cynnyrch yr Archif

Mae archif BBC Cymru yn y cyd-destun hwn yn golygu archif radio'r BBC yn y Gymraeg ynghyd â'r archif o raglenni teledu BBC sydd yn eiddo i'r BBC a gynhyrchwyd gan y BBC ar gyfer darlledu ar wasanaethau S4C (gan gynnwys rhaglenni yn y Gymraeg a gynhyrchwyd gan y BBC cyn 1982) ynghyd â rhaglenni teledu Saesneg yn eiddo'r BBC a gynhyrchwyd ar gyfer darlledu ar wasanaethau'r BBC yng Nghymru (h.y. nid rhaglenni ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith y BBC).

3. Hyd y Clipiau

- 3.1 Yn y cyd-destun hwn mae clipiau yn golygu detholiadau wedi'u golygu o'r deunydd archif sydd ddim hwy na 5 (pump) munud am bob 30 (tri deg) munud neu lai o amser rhedeg y rhaglen.
- 3.2 Ni all y rhaglen orffenedig gynnwys mwy na 25% o glipliau BBC Cymru.

4. Costau Ymchwil a Thechnegol (2011/2012)

- 4.1 Codir ffi o £60 yr awr + TAW am waith ymchwil gan staff adran Archif BBC yng Nghymru.
- 4.2 Codir ffi dechnegol o £90 + TAW a chostau stoc am ddeunydd fformat darlledu.
- 4.3 Codir ffi o £50 + TAW am gopi gwyllo DVD gyda chôd amser.

5. Ymelwa Pellach

Bydd unrhyw ymelwa masnachol neu ddefnydd arall o'r clipiau gan gyflenwyr annibynnol S4C yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig y BBC ac yn amodol ar gyfraddau cyffredinol y farchnad am ddefnydd pellach drwy drefniant y Llyfrgell yng Nghaerdydd ac (yn achos rhaglenni rhwydwaith) BBC Motion Gallery.